

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych



Gweithdy Themâu Strategol

Ym mis Ionawr 2017, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych weithdy i ddechrau trafod goblygiadau drafft yr Aseiad o Les Lleol a beth y mae hyn ei olygu ar gyfer rhanbarth Conwy a Sir Ddinbych.

Trafododd y bwrdd y materion strategol a godwyd yn yr aseiad o les lleol a dechrau ystyried lle y gallant wneud gwahaniaeth ar y cyd.

Ar ôl blaenoriaethu'r materion, nododd y Bwrdd ddau faes sydd angen eu harchwilio ymhellach fel rhan o'r dadansoddiad ymateb, sef-

- Creu ffordd o fyw iach
- Creu diwylliant llawn dyheadau a llythrennedd emosiynol ymysg pobl ifanc.

Er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y dadansoddiad ymateb, mae'r Bwrdd yn bwriadu ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol yn y meysydd hyn i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, nodi bylchau a datblygu cynigion ar gyfer cydweithio.

Byddwn yn eich diweddarau ynglŷn â ble a phryd y cynhelir y gweithdai hyn.



Aseiad o Les Lleol – Ymgynghoriad

O dan y Ddeddf, rhaid i'r BGC baratoi a chyhoeddi aseiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Conwy a Sir Ddinbych a fydd yn sail i ddatblygiad Cynllun Lles ar gyfer y bwrdd.

Mae drafft cyntaf yr aseiad wedi'i gynhyrchu a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (www.conwyanddenbighshirelsb.org.uk) ar gyfer ymgynghoriad ar ddechrau mis Chwefror 2017 – byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu pan fydd yr ymgynghoriad yn weithredol er mwyn i chi leisio eich barn.

Blaenoriaeth Dros Dro y BGC – 1000 Diwrnod Cyntaf Bywyd

Yn ogystal â'r materion a nodwyd yn y gweithdy diwethaf, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i ganolbwyntio ar **1000 Diwrnod Cyntaf Bywyd**. Cynhelir gweithdy mapio ar gyfer staff perthnasol ar 6 Chwefror 2017 er mwyn hysbysu'r dadansoddiad ymateb. Byddwn yn eich diweddarau ynglŷn â'r camau nesaf yn dilyn y digwyddiad.